

BONAPARTE, Y Tywysog LOUIS-LUCIEN (1813 - 1891).

Enw: Louis-lucien Bonaparte
Dyddiad geni: 1813
Dyddiad marw: 1891
Rhiant: Lucien Bonaparte
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Ellis Caerwyn Williams

Mab i Lucien (a nai i Napoleon) Bonaparte. Ganwyd ar y 4 Ionawr 1813 yn Thorngrove, Worcestershire, Lloegr, ac yn Lloegr y bu hyd y flwyddyn 1848, pryd y dychwelodd i Ffrainc lle y gwnaed ef ar ôl y chwyldro yn ddirprwy dros Corsica (28 Tachwedd). Pan ddiddymwyd yr etholiad hwnnw, fe'i hetholwyd ym Mehefin 1849 yn ddirprwy dros Seine. Eisteddodd ar y ddeau yn y Gymanfa Ddeddfwriaethol ond ni chymerodd ran uniongyrchol yn 'coup d'état' ei gefnder yn Rhagfyr 1850. Enwodd Napoleon III ef yn seneddwr ac yn dywysog, ond nid ymddiddorodd nemor mewn gwleidyddiaeth yn ystod yr Ail Ymerodraeth, ac ar ôl cyhoeddi'r Drydedd Weriniaeth yn 1870 ymneilltuodd i Loegr lle yr ymroddodd i astudio ieitheg. Ei brif bwnc oedd iaith y Basgiaid, ond astudiodd yr ieithoedd Celtaidd hefyd, a chyhoeddodd astudiaethau ar dreigliadau cytseiniaid ar ddechrau geiriau; gweler yn arbennig *Initial Mutations in the Living Celtic, Basque, Sardinian, and Italian Dialects*, 1885.

Yn ei feddiant ef yr oedd yr unig gopi a gadwyd o lyfr *Morys Clynog, Athravaeth Gristnogavl*, ac y mae Cymru yn ddyledus iddo nid yn unig am alw sylw at y copi hwnnw eithr hefyd am ei drawslythrennu i'r Cymmrodorion a chaniatáu iddynt ei gyhoeddi yn 1880.

Bu farw 3 Tachwedd 1891.

Awdur

Yr Athro John Ellis Caerwyn Williams, (1912 - 1999)

Ffynonellau

Encyclopaedia Britannica (14th), iii, 836, Bonaparte (y teulu)

Revue Celtique (1870â€"1934), xiv, 1893, 71-2

Athravaeth Gristnogavl, le cair uedi cynnuys yn grynno'r hol brifbynciau syd i gyfaruydo dyn ar y phord i baraduys. Originally printed at Milan, A.D. 1568. Reproduced in fac-simile from the unique copy in the possession of H.J.H. Prince L. L. Bonaparte, etc. (London 1880)

Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 6205-24 - copi o'i ewylllys yw 6223

Brynley F. Roberts, 'A gentle and amiable prince': Louis-Lucien Bonaparte and Welsh studies,' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, new series, vol.2, 1996, pp.79-99

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 27161096

Wikidata: Q523352

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, J. E. C., (1953). BONAPARTE, Y Tywysog LOUIS-LUCIEN (1813 - 1891).. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BONA-LOU-1813>

Clifford

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government